# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3) 05-08)

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

Papur i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â phwerau dirprwyedig - i'w ystyried gan y pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 15.6(ii)

Pwrpas

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.6(ii) caiff y pwyllgor ystyried pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu darpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig drafft ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)2008 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cefndir

2. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghori ar 15 Ionawr 2008 ynghylch ei Fesur arfaethedig mewn perthynas â Dysgu a Sgiliau. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 29 Ebrill 2008.

3. Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod y pŵer i wneud y Mesur hwn wedi ei gynnwys yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a bod cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn ym Materion 5.4, 5.7 a 5.8 ym maes 5 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

4. Y materion dan sylw yw -

"Mater 5.4"

"Darpariaeth ynghylch y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol."

"Mater 5.7"

"Darpariaeth ynghylch yr hawlogaeth i addysg cynradd, uwchradd ac addysg bellach a hyfforddiant."

"Mater 5.8"

"Darpariaeth ynghylch darparu gwasanaethau er mwyn annog, galluogi neu gynorthwyo pobl-"

"(a) i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,"

"(b) i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, neu"

"(c) i gymryd rhan effeithiol ym mywyd eu cymunedau."

5. Mae Rhagair y Ddogfen Ymgynghori'n disgrifio pwrpas y Mesur fel a ganlyn -

""Bydd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 yn sicrhau bod Dysgwyr 14-19 o bob gallu yn medru dewis o amrywiaeth eang o raglenni cymhwysol a chyffredinol, o ddewislen opsiynau gydweithredol. Bydd dysgwyr yn derbyn profiadau a chyfleoedd ehangach gan gynnwys datblygiad sgiliau allweddol. Bydd dysgwyr hefyd yn cael mynediad i gymorth dysgu a chymorth personol ac i wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd mantais lawn o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.""

Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth

6. Mae Rhan 1 o'r Mesur yn cyflwyno Cwricwlwm Lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy ddiwygio Deddf Addysg 2002 yn unig. Mae Rhan 2 yn ymdrin â Chwricwlwm Lleol i fyfyrwyr 16 i 18 oed drwy ddiwygio Deddf Addysg a Sgiliau 2000. Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer Gwasanaethau sy'n ymwneud ag Addysg, Addysgu a Sgiliau, ac mae'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf Addysg 1997. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau amrywiol. Canlyniad hyn yw bod dim llai na 31 o'r 39 adran yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau Seneddol, a bod y gweithdrefnau is-deddfwriaeth fel arfer yn dilyn gweithdrefnau'r Deddfau hynny.

7. Mae'r Llywodraeth wedi crynhoi'r argymhellion mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn Adran 5 o'r Ddogfen Ymgynghori fel a ganlyn -

""5 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth"

"5.1 Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i wneud rheoliadau yn nodi ar ba sail y gall pennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs."

"5.2 Mae'r Mesur drafft yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru fedru"

"darparu rheoliadau ynghylch:"

"• Llunio'r cwricwlwm lleol, er enghraifft, isafswm nifer y cyrsiau i'w cynnig o fewn y cwricwlwm lleol ac isafswm nifer y cyrsiau hynny ddylai fod yn alwedigaethol;"

"• y dewisiadau a wneir o ran cyrsiau cwricwlwm gan gynnwys, er enghraifft, uchafswm nifer y cyrsiau y gall disgybl eu dilyn a'r cyfnod ar gyfer gwneud dewisiadau;"

"• y graddfeydd amser perthnasol ar gyfer penderfyniad pennaeth neu"

"benadur na all disgybl ddilyn cwrs ac yn fwy cyffredinol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau o'r fath;"

"• ymestyn y diffiniad o 'drefniadau cydweithredol' i gynnwys cydweithio"

"ffurfiol rhwng ysgolion a gynhelir a rhwng ysgolion a chyrff addysg bellach;"

"• diwygio meysydd dysgu;"

"• cymhwyso darpariaethau'r Mesur ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol "

"sydd heb gofrestru fel disgyblion ysgol a gynhelir ond sy'n derbyn addysg o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru."

"5.3 Yn ogystal mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru trwy orchymyn i"

"ddiwygio'r meysydd dysgu neu atal y cwricwlwm lleol dros dro."

"5.4 Ar wahân i'r pŵer i atal y cwricwlwm lleol dros dro neu ddiwygio'r meysydd"

"dysgu trwy orchymyn sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y"

"Cynulliad, mae unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir dan ddarpariaethau'r Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.""

8. Ceir esboniad manylach o'r pwerau i wneud yr offerynnau statudol y cyfeirir atynt yn y Mesur arfaethedig yn y Nodiadau Esboniadol drafft ar yr adrannau, sy'n rhan o Atodiad 1 o'r Ddogfen Ymgynghori. Mae fersiwn dalfyredig o'r pwerau hynny yn ffurfio Atodiad 1 o'r papur Pwyllgor hwn.

9. I grynhoi, bydd gweithdrefnau negyddol y Cynulliad yn gymwys i'r holl reoliadau a gorchmynion gyda rhai eithriadau - atal y cwricwlwm lleol fel y nodir ym mharagraff 5.3 o'r dyfyniad uchod a diwygio'r meysydd dysgu (adran 13) a diwygio Deddf Addysg 2002 (adran 15). Yn unol â'r hyn sy'n arferol, nid oes yr un weithdrefn yn gymwys i orchmynion cychwyn.

10. Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd, mae pwerau i roi cyfarwyddiadau neu gyhoeddi canllawiau (a all, weithiau, gael eu hystyried yn ddeddfwriaeth) wedi'u cynnwys yn yr Atodiad, ond ni fyddai unrhyw weithdrefn Cynulliad yn gymwys iddynt.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno ac, os felly, ym mha fodd y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Cynllun arfaethedig hwn.

Swyddfa Ddeddfwriaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Chwefror 2008

**Atodiad 1**

**Nodiadau Esboniadol**

**Nodiadau Esboniadol Drafft ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Fe'u paratowyd gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad i ddeall y Mesur drafft. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae angen darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Mesur drafft. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur drafft. Felly, pan geir adran neu ran o adran lle'r ymddengys nad oes angen esboniad neu sylw, ni roddir un.

**Rhan 1 Cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4**

Mae'r Rhan hwn o'r Mesur yn mewnosod darpariaethau i Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 (DA 2002). Mae Rhan 7 yn ymwneud â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. O ganlyniad i Rhan 1 o'r Mesur, felly, bydd y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru'n cael ei ehangu i gynnwys hawlogaethau cwricwlwm lleol disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.

**Mae Adrannau 1-3 yn diwygio Deddf Addysg 2002**

**Mae Adrannau 4-12 yn mewnosod darpariaethau newydd i Ddeddf Addysg 2002**

**Adran 4 Llunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (adran 116A o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bod pob awdurdod addysg lleol yn llunio cwricwlwm lleol i'w ardal ar gyfer rhai 14-16 oed (disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4).

Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau ynghylch llunio cwricwlwm lleol, er enghraifft, i osod isafswm nifer y cyrsiau y dylid eu cynnwys o fewn cwricwlwm lleol neu gyfran isaf o gyrsiau astudio galwedigaethol y dylid eu cynnwys o fewn cwricwlwm lleol.

Mae is-adran (7) yn caniatáu rheoliadau i ddarparu ar gyfer gofynion gwahanol gwricwla lleol mewn ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd mae'n bosib y bydd yna isafswm uwch o gyrsiau y dylid eu cynnwys yn y cwricwlwm lleol nag mewn ardaloedd eraill.

**Adran 5 Dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol (adran 116B o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r adran hon yn dechrau'r broses sy'n arwain at hawlogaeth disgybl i ddilyn cyrsiau astudio a gynhwysir yn y cwricwlwm lleol sy'n berthnasol i'w ysgol ef neu hi. Dan yr adran hon, mae gan ddisgybl yr hawl i ddewis dilyn cwrs astudio arbennig. Mae darpariaethau diweddarach yn pennu a fydd y dewis hwnnw'n cael ei wyrdroi'n hawlogaeth i ddilyn y cwrs astudio dan sylw.

Mae is-adran (1) yn gosod hawliau disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 i ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau o'r cwricwlwm lleol perthnasol. Gellir cyfyngu ar yr hawliau hyn, fodd bynnag, gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru dan is-adran (2).

Mae is-adran (2) yn caniatáu gwneud rheoliadau fydd yn pennu uchafswm nifer y cyrsiau y gall disgybl eu dewis o'r cwricwlwm lleol cyfan, y cyfuniad o gyrsiau o wahanol fathau y gellir eu dewis a'r cyfnod ar gyfer gwneud y dewisiadau. Gall fod angen cyfyngu ar y cyfnod ar gyfer gwneud y dewisiadau er mwyn i'r asiantaethau dan sylw gael digon o amser i wneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer darparu'r cyrsiau astudio a ddewiswyd (gellir eu darparu gan ysgol neu sefydliad gwahanol i'r un roedd y disgybl yn mynychu ar adeg gwneud y dewisiadau).

**Adran 6 Hawlogaethau disgyblion o ran y cwricwlwm lleol (adran 116C o Ddeddf Addysg 2002)**

**Adran 7 Penderfyniad y pennaeth ynghylch hawlogaeth (adran 116E o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'n siŵr y byddai'n amhosibl sefydlu system fyddai'n gwyrdroi holl ddewisiadau disgyblion i ddilyn cyrsiau astudio yn hawlogaethau. Er enghraifft, os mai llond dwrn yn unig o ddisgyblion o fewn ardal awdurdod addysg lleol oedd wedi dewis dilyn cwrs arbennig, mae'n bosib na fyddai darparu'r cwrs hwnnw'n gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Dyna pam y mae'r adran hon yn caniatáu i bennaeth benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio penodol.

Rhaid i Weinidogion Cymru, dan is-adran (2) bennu ar ba sail y gall pennaeth benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs astudio. Gall rheoliadau dan is-adran (3) wneud darpariaeth bellach ynghylch gwneud penderfyniadau dan yr adran hon. Er enghraifft, gallant ddarparu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau erbyn rhyw ddyddiad arbennig er mwyn i'r disgyblion wybod mewn da bryd pa gyrsiau astudio y byddant yn eu dilyn yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gyfer penaethiaid ynghylch ymarfer eu swyddogaethau dan yr adran hon. Gallai'r rhain ymdrin â materion megis cysylltu gyda phenaethiaid eraill (gyda'r bwriad o gytuno ar y cyrsiau astudio ddylai fod ar gael i ddisgyblion o ysgolion ei gilydd) cyn gwneud penderfyniad ynghylch hawlogaeth.

**Adran 8 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol (adran 116E o Ddeddf Addysg 2002)**

**Adran 9 Penderfyniad y Pennaeth i ddileu hawlogaeth (adran 116F o Ddeddf Addysg 2002)**

Weithiau, bydd yn angenrheidiol i ddileu hawlogaeth disgybl i ddilyn cwrs astudio e.e. am gamymddwyn. Rhaid nodi ar ba sail y gall Pennaeth benderfynu na fydd gan ddisgybl yr hawl bellach i ddilyn cwrs astudio yn y rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Pennaeth ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch ymarfer ei swyddogaethau dan yr adran hon.

**Adran 10 Cynllunio'r cwricwlwm lleol (adran 116G o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r adran hon yn gofyn bod y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg 14 - 16 o fewn ardal awdurdod addysg lleol yn cynorthwyo'r awdurdod i gynllunio ei gwricwlwm lleol.

Mae is-adran (3) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch ymarfer swyddogaethau person dan yr adran hon.

**Adran 11 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio (adran 116H o Ddeddf Addysg 2002)**

Amcan yr adran hon yw sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael yn y cwricwlwm lleol. Er mwyn sicrhau amrywiaeth eang o ddewis, gall fod angen i leoliadau dysgu weithio ar y cyd.

Diffinnir "trefniadau cydweithredu" gan is-adran (5), ac mae is-adran (6) yn caniatáu bod rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ymestyn y diffiniad ymhellach os oes angen, i gynnwys trefniadau cydweithio ffurfiol dan y darpariaethau a nodir yn yr is-adran.

**Adran 12 Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau (adran 116I o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ymrwymiad i gydweithio a osodir gan adran 116H. Mae'n ofynnol bod awdurdod addysg lleol, corff llywodraethol ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethol sefydliad addysg bellach yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau neu'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau dan adran 116H.

**Adran 13 Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu ac atal cwricwlwm lleol dros dro (adran 116J o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru i ddiwygio adran 116A(3). Byddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu creu meysydd dysgu newydd. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu nad yw adran 1116A i fod yn effeithiol tra mae'r gorchymyn mewn grym.

**Adran 14 Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig (adran 116K o Ddeddf Addysg 2002)**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i gymhwyso'r darpariaethau cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Darperir diffiniad o'r rhai fyddai'n perthyn i'r categori hwn yn is-adran (3). Mae'r diffiniad yn dal plant o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn y cwbl, neu'r rhan fwyaf, o'u haddysg dan drefniadau a wneir gan Sefydliadau Addysg Bellach ac nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir.

**Adran 15 Pwerau i newid neu ddileu'r gofynion ar gyfer y pedwerydd cyfnod allweddol**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 107 o Ddeddf Addysg 2002. Mae adran 107 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy orchymyn, i newid neu ddileu gofynion ar gyfer y pedwerydd cyfnod allweddol. Mae'r gwelliant hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru i wneud y newidiadau angenrheidiol i Ddeddf Addysg 2002 o ganlyniad i orchymyn o'r fath.

**Adran 16 Rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 210 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn darparu rheolaeth i'r Cynulliad dros reoliadau a gorchmynion a wneir dan y darpariaethau a mewnosodir gan y Mesur hwn i Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Y weithdrefn berthnasol yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol ymhob achos ac eithrio pan wneir gorchymyn dan adran 116J, sydd, oherwydd y byddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**RHAN 2 Cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed**

Mae'r Rhan hwn o'r Mesur yn mewnosod darpariaethau i Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf honno'n ymwneud â'r chweched dosbarth ac addysg bellach yng Nghymru. Gan mwyaf, mae'r darpariaethau a mewnosodwyd yn adlewyrchu, gyda newidiadau priodol i adlewyrchu strwythur gwahanol addysg bellach, y ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer plant 14 i 16 oed gan Rhan 1 o'r Mesur hwn.

Mae **Adrannau 17-29** yn diwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000

**Adran 18 Llunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed (adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r adran hon yn darparu bod pob ardal awdurdod addysg lleol yn llunio cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed.

Mae is-adran (4) yn darparu ar gyfer rheoliadau i bennu'r maes dysgu y bydd cwrs astudio'n perthyn iddo at ddibenion yr adran hon.

**Adran 19 Dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol (adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r adran hon yn dechrau'r broses sy'n arwain at sicrhau hawlogaeth myfyriwr i ddilyn cyrsiau astudio o'r cwricwlwm lleol perthnasol. Bydd yr adran hon yn gweithredu mewn perthynas â phlant yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau fydd yn nodi uchafswm nifer y cyrsiau y gall disgybl eu dewis o'r cwricwlwm lleol cyfan, y cyfuniad o gyrsiau o wahanol fathau y gellir eu dewis a'r cyfnod ar gyfer gwneud y dewisiadau hynny.

**Adran 20 Hawlogaethau myfyrwyr o ran y cwricwlwm lleol (adran 33C o Ddeddf Dysgu a Medru 2000)**

**Adran 21 Penderfyniad y pennaeth neu'r penadur ynghylch hawlogaeth (adran 33D o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r adran hon yn caniatáu i bennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio penodol.

Rhaid i Weinidogion Cymru, dan is-adran (2) bennu ar ba sail y gall pennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs astudio. Gall rheoliadau dan is-adran (3) wneud darpariaeth bellach ynghylch gwneud penderfyniadau dan yr adran hon.

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gyfer penaethiaid a phenaduriaid ynghylch ymarfer eu swyddogaethau dan yr adran hon.

**Adran 22 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol (adran 33E o Ddeddf Dysgu a Medrau 2002)**

**Adran 23 Penderfyniad y pennaeth neu'r penadur i ddileu hawlogaeth (adran 33F Deddf Dysgu a Medrau 2000)**

Rhaid nodi ar ba sail y gall Pennaeth neu Benadur ysgol neu sefydliad perthnasol myfyriwr benderfynu nad oes gan y disgybl yr hawl bellach i ddilyn cwrs astudio yn y rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r pennaeth neu'r penadur ystyried unrhyw

ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch ymarfer ei swyddogaethau dan yr adran hon.

**Adran 24 Cynllunio'r cwricwlwm lleol (adran 33G o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r adran hon yn gofyn bod y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg 16 i 18 yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer ardal awdurdod addysg lleol penodol.

Mae is-adran (3) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau ar gyfer y cyrff a nodir uchod mewn perthynas â'u dyletswydd i gynorthwyo Gweinidogion Cymru dan yr adran hon.

**Adran 25 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio (adran 33H o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Fel nodwyd yn is-adran (1), amcan yr adran hon yw sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael o fewn y cwricwlwm lleol. Er mwyn sicrhau amrywiaeth eang o ddewis, gall fod angen i leoliadau dysgu weithio ar y cyd.

Diffinnir "trefniadau cydweithredu" yn is-adran (5) ac mae is-adran (6) yn caniatáu bod rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ymestyn y diffiniad ymhellach os oes angen, i gynnwys trefniadau cydweithio ffurfiol dan y darpariaethau a nodir yn yr is-adran.

**Adran 26 Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau (adran 33I o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ymrwymiad i gydweithio a osodir gan adran 33H. Mae'n ofynnol bod awdurdod addysg lleol, corff llywodraethol ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethol sefydliad addysg bellach yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau neu'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau dan adran 33H.

**Adran 27 Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu ac atal cwricwlwm lleol dros dro (adran 33J o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru i ddiwygio adran 33A(3).

**Adran 28 Y cwricwlwm lleol: dehongli (adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

**Adran 29 Rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 152 o Ddeddf Dysgu a Medru 2000 er mwyn darparu bod y Cynulliad yn rheoli'r rheoliadau a'r gorchmynion a wneir dan y darpariaethau a mewnosodir gan y Mesur hwn i Rhan 2 o'r Ddeddf honno. Y weithdrefn berthnasol yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol ymhob achos ac eithrio pan wneir gorchymyn dan adran 116J sydd, oherwydd ei fod yn newid y ddeddfwriaeth sylfaenol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**RHAN 3 - GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG A HYFFORDDIANT**

**Adran 30 Gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

Mae is-adran (1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu neu sicrhau "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr". Gellir eu cyfarwyddo hefyd i gymryd rhan pan ddarperir gwasanaethau cymorth i ddysgwyr gan rywun arall.

**31 Dyletswyddau cyrff llywodraethol**

**32 Diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000**

**33 Y ddogfen llwybr dysgu**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu i bob disgybl perthnasol neu fyfyriwr perthnasol ddogfen sy'n cofnodi ei lwybr dysgu ef neu hi.

**34 Llwybrau Dysgu: dehongli**

Mae'r adran hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adran 33. Mae'n cynnwys pwer drwy reoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "fyfyriwr perthnasol" i gynnwys personau o oedran a nodir ac sydd yn uwch na 19.

**35 Diwygio Deddf Addysg 1997**

**RHAN 4 - AMRYWIOL AC ATODOL**

**Adran 36 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol**

Pwrpas yr adran hon yw caniatáu rheoliadau fel y gellir cymhwyso'r corff presennol o ddeddfwriaeth addysgol mewn ffordd briodol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn eu haddysg o fewn mwy nag un sefydliad addysgol. Er enghraifft, gallai rheoliadau dan yr adran hon nodi, at ddibenion cyfarfodydd rheoli deddfwriaeth gyda rhieni phlentyn, y gellid trin y plentyn fel disgybl cofrestredig yn fwy nag un ysgol er mwyn i'r rhieni gael yr hawl i gwrdd â'r rhai sy'n gyfrifol am addysg y plentyn yn y ddwy ysgol.

**Adran 37 Gorchmynion a rheoliadau**

Mae'r adran hon yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchymyn dan y Mesur yn cael ei

ymarfer trwy offeryn statudol.  Mae hefyd yn darparu bod modd dileu unrhyw reoliadau a wneir dan y Mesur trwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 38 Cychwyn**

Mae'r adran hon yn darparu bod y Mesur yn dod i rym trwy orchymyn Gweinidogion Cymru.  Mae'n caniatáu dod â'r Mesur i rym ar adegau gwahanol o fewn gwahanol ardaloedd awdurdodau addysg lleol.  Yn unol â'r drefn arferol, ni fydd gweithdrefn y Cynulliad yn gymwys i Orchymyn(ion) Cychwyn.

**Adran 39 Yr enw byr a chynnwys y Mesur yn y Deddfau Addysg**